# HYSBYSIAD ETHOLIAD

## Etholiad y Senedd
## Etholaeth Fflint Wrecsam

1. Cynhelir etholiad i enwebu Aelodau i wasanaethu yn y Senedd dros etholaeth Fflint Wrecsam.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY neu yn electronig drwy **seneddelection@wrexham.gov.uk**.

3. Rhaid cyflwyno papurau enwebu, drwy apwyntiad ymlaen llaw, i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY rhwng **9am a 4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn ond heb fod yn hwyrach na 4pm ddydd Iau 9 Ebrill 2026 neu yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod ond heb fod yn hwyrach na 4pm ddydd Iau 9 Ebrill 2026.

4. Gellir talu'r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol neu ernes o £500 ar gyfer yr ymgeisydd cyntaf ar y rhestr plaid, a £200 ar gyfer pob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, naill ai mewn arian parod, drwy ddrafft banc (banciau sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn unig) neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol.

5. Os ymleddir yr etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal **ddydd Iau 7 Mai 2026**.

6. Rhaid i geisiadau i gael eich ychwanegu at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn 12 hanner nos, **Dydd Llun 20 Ebrill 2026**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn: **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.

7. Rhaid i geisiadau, addasiadau neu geisiadau canslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Mawrth 21 Ebrill 2026.**

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**.

9. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail analluedd corfforol neu am resymau gwaith / gwasanaeth gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Iau 7 Mai 2026**. Rhaid bod yr analluedd corfforol wedi digwydd **ar ôl 5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**. I wneud cais ar sail gwaith / gwasanaeth, rhaid i'r person fod wedi dod yn ymwybodol na fyddai'n gallu mynd i'r orsaf bleidleisio **ar ôl 5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

10. Datganiad cyflwyno'n electronig

- Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig, drwy e-bost, yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

- Drwy e-bost i **seneddelection@wrexham.gov.uk**

- **Gwiriadau anffurfiol** - rhowch **'GWIRIAD ANFFURFIOL'** yn y pennawd pwnc

- **Cyflwyno enwebiadau** - rhowch **'CYFLWYNIAD FFURFIOL'** yn y pennawd pwnc

- Gellir defnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod hefyd ar gyfer ymholiadau enwebu.

- Lle y bo'n bosibl, dylech gynnwys eich rhif ffôn cyswllt yn yr e-bost rhag ofn bod angen gwneud ymholiadau.

- Dylid atodi papurau enwebu i'r e-bost naill ai ar ffurf Word neu PDF. Mae llofnod wedi'i deipio, llofnod electronig neu lofnod inc gwlyb (ar bapur enwebu wedi'i sganio) i gyd yn fathau dilys o lofnod ar gyfer papurau enwebu a gyflwynir yn electronig.

Sylwer:

- Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol, fel y bo'n briodol, yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

- Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn anfon hysbysiad o'i benderfyniad ynghylch a yw enwebiad yn ddilys ai peidio. Fodd bynnag, dylech dderbyn ymateb awtomatig o'r cyfeiriad e-bost a ddangosir uchod, a fydd yn nodi bod e-bost wedi'i dderbyn. Os na fyddwch yn derbyn ymateb awtomatig, cysylltwch ag **electoral@wrexham.gov.uk**.

- Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau'n electronig, cysylltwch â 01978 292020.

| Y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir neu Fwrdeistref Sirol | | |
|---|---|---|
| Sir y Fflint | Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo CH5 3FF | 01352 702300 |
| Wrecsam | Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY | 01978 292020 |

**Alwyn Jones**
**Swyddog Canlyniadau Etholaethol**

Dyddiad: Dydd Mercher 25 Mawrth 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY